CARDIFF SCHOOL of ART & DESIGN

## Animeiddio

# Briff Aseiniad Prosiect yr Haf

| Cod y Modiwl | Teitl y Modiwl |
| --- | --- |
| Prosiect Cyn Cyrraedd | Aseiniad Prosiect yr Haf |

| Blwyddyn Academaidd | Semester |
| --- | --- |
| 2023/24 | Cyn-semester/tymor un |

**E-bost Arweinydd y Prosiect**

Owen Stickler: ostickler@cardiffmet.ac.uk

## Manylion Asesu

| Teitl y prosiect | Tal. | Pwysoliad |
| --- | --- | --- |
| Prosiect Animeiddio'r Haf | WRIT1 | Dd/B |

**Cyd-destun:**

Yn ystod eich tair blynedd ar y cwrs BA Animeiddio yn YGDC gofynnir i chi gadw dyddlyfr dysgu. Pwrpas y dyddlyfr yw dangos eich ymchwil a'ch dealltwriaeth feirniadol a myfyriol o'ch sgiliau a'ch diddordebau.

**Briff:**

## Ymchwil Gweledol

I baratoi ar gyfer hyn, eich tasg haf yw creu casgliad gweledol, llyfr sgrap os mynnwch, sy'n eich adlewyrchu chi a'ch profiadau dros yr haf. Tynnwch luniau a gwneud darluniau mor rheolaidd â phosibl - bob dydd yn ddelfrydol. Gallwch gynnwys delweddau o gylchgronau neu gardiau post a gallai'r casgliad gynnwys dolenni i animeiddiadau diddorol, delweddau o ffilmiau a cherddoriaeth a chyfeiriadau at lyfrau neu erthyglau rydych wedi eu darllen.

Defnyddiwch eich greddf i gasglu a dogfennu pethau rydych chi'n eu gweld yn ddiddorol ac yn ymwneud â'ch ymdeimlad eich hun o greadigrwydd.

## Cyflwyniad

Ail ran y dasg yw cyd-lynu eich ymchwil gweledol mewn i gyflwyniad PDF 5 munud neu Power Point o 10 o sleidliau. Defnyddiwch y cyflwyniad i sôn am ble y daethoch chi ar draws y ddelwedd, clip neu sut y gwnaethoch y llun. Beth oeddech chi'n ei weld yn ddiddorol amdano ar y pryd a beth mae'n ei olygu i chi nawr?

Peidiwch dychryn! Nid ydym yn mynd i ofyn i chi gyflwyno o flaen y dosbarth cyfan. Bydwch y cyflwyniadau i grŵp bychan ac aelod o staff. Mae'n eithaf anffurfiol a bydd yn ffordd wych o gyflwyno eich hun i'r staff a'ch cyfoedion newydd ar y cwrs animeiddio.

## Ymchwil Animeiddiwr/Artist

Mae 'Dangos a Dweud' yn sesiwn sgrinio reolaidd rydyn ni'n ei chynnal trwy gydol y flwyddyn ar gyfer yr holl fyfyrwyr animeiddio. Pwrpas y dangosiadau yw cyflwyno ein gilydd i animeiddwyr a thechnegau newydd, cyffrous ac arloesol rydym wedi eu gweld.

Mae hefyd yn gyfle i ddadansoddi a thrafod syniadau gweledol a themâu sy'n deillio o'r ffilmiau.

Byddwn yn cynnal ein sesiwn gyntaf yn ystod yr Wythnos Groeso ac mae'n gyfle i chi gyflwyno animeiddiad byr rydych chi'n ei edmygu a dweud wrthym beth rydych chi'n meddwl sy'n dda amdano.

Oherwydd y cyfyngiadau amser ni ddylai'r ffilmiau fod yn fwy na 5 munud o hyd.

Cymerwch beth amser i edrych trwy'r enghreifftiau hyn o animeiddio ffurf fer cyfoes sydd ar gael yma ar barth animeiddio Vimeo - https://vimeo.com/categories/animation

Dewiswch un o'r animeiddiadau byr ac uwchlwytho i'r Padlet yma

https://cardiffmet.padlet.org/ostickler1/welcome-week-show-and-tell-naksqq7skwq1g46b

| | |
|---|---|
| **Pethau i'w cyflawni:**<br><br><br><br>**Cyflwyniad** | **Peidiwch ag anghofio cynnwys y canlynol:**<br>• Eich enw:<br>• Teitl eich cwrs:<br>• Teitl a Dyddiad y Prosiect: Prosiect yr Haf 2023<br><br>• **Dewch â'r prosiect gyda chi ar gyfer dechrau'r Wythnos Groeso ddydd Llun 18 Medi** |
| | Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch ar sut i gwblhau'r dasg hon, anfonwch e-bost at ein tîm gweinyddol ysgol yn nodi enw'r cwrs yr ydych ar fin ymuno ag ef a'r cwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r cyfeiriad e-bost canlynol: csadadmin@cardiffmet .ac.uk |

## Adnoddau Ar-lein

Lle gwych i weld yr amrywiaeth o bynciau ac amrywiaeth technegau sy’n cael eu defnyddio mewn animeiddio cyfoes

Cylchgronau Animeiddio Ar-lein

Skwigly: http://www.skwigly.co.uk

Cartoon Brew : Cartoon Brew | Animation News, Animated Cartoons

Showmetheanimatiom : http://showmetheanimation.com

Fframiau Zippy : Zippy Frames | Animation News, Reviews on European and Independent Animation

Arddangosfa ar-lein ar gyfer ffilmiau animeiddio byr

### Awgrymiadau o ddarllen dros y haf•

Scott McCloud. Understanding Comics

Paul Wells. The Fundamentals of Animation

### Awgrymiadau o raglenni i’w gwylio dros yr Haf •

The Story of British Animation (bfi.org.uk)

# Nodiadau:

Gallwch ddefnyddio'r dudalen wag hon i wneud eich nodiadau eich hun:

CARDIFF
SCHOOL *of* ART & DESIGN